ADRODDIADAU ARHOLWYR

LLWYBRAU MYNEDIAD
CYMRAEG AIL IAITH

HAF 2018

© WJEC CBAC Ltd.

LLWYBRAU MYNEDIAD

CYMRAEG AIL IAITH

Haf 2018

Llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr gyrraedd y safon a pharatoi gwaith graenus. Braf oedd gallu gweld tystiolaeth o Gymraeg hyderus yn cael ei defnyddio ar draws yr holl sgiliau. Diolch yn fawr iawn hefyd i'r athrawon am eu paratoi mewn ffordd mor drwyadl ac am gyflwyno gwaith a oedd yn hawdd ei safoni.

Yn gyffredinol roedd safon y gwaith a threfniadau cyflwyno gan yr ysgolion yn arbennig o dda.

Uned 6365 – Cyfathrebu yn y Gymraeg mewn sefyllfaoedd cyfarwydd
Gwelwyd sgwrsio hyderus ac a defnydd o iaith naturiol. Braf oedd teimlo hyder yr ymgeiswyr wrth iddynt drafod testunau cyfarwydd. Dylid cofio ei fod yn anhepgor i athrawon gyfrannu at y sgwrs ac holi'n bwrpasol er mwyn sicrhau bod yr ymgeiswyr yn rhoi o'u gorau.

Uned 6366 – Gwrando a deall eraill yn siarad Cymraeg mewn sefyllfaoedd cyfarwydd
Roedd yr ymgeiswyr wedi ymateb yn llawn i'r tasgau. Atgoffir canolfannau y pwysigrwydd o atodi'r sgriptiau gyda'u sampl er mwyn galluogi safoni. Cofiwch hefyd yr angen i sicrhau fod digon o gwestiynau yn cael eu holi er mwyn galluogi'r ymgeiswyr i lwyddo ar y ddwy lefel wahanol.

Uned 6367 – Darllen a deall testunau yn Gymraeg mewn sefyllfaoedd cyfarwydd
Llwyddodd y mwyafrif i ddilyn y meini prawf wrth ddethol ffeithiau a mynegi barn yn syml.

Uned 6368 – Paratoi at fyd gwaith mewn sefyllfaoedd cyfarwydd yn Gymraeg.
Llwyddodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr i ymateb yn ddiddorol i ddeunydd addas o fewn eu profiad. Mae'n bwysig cwestiynnu'r ymgeiswyr yn synhwyrol er mwyn eu galluogi i ennyn hyder ac i lwyddo ar y lefelau gwahanol.

Uned 6369 – Ysgrifennu yn Gymraeg mewn sefyllfaoedd cyfarwydd
Roedd yr ymgeiswyr gorau yn ysgrifennu'n hyderus am bynciau cyfarwydd. Roedd y goreuon wedi sicrhau amrywiaeth o eirfa ymestynnol ac amrywiaeth o batrymau brawddegol.

© WJEC CBAC Ltd.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Ffôn: 029 2026 5000
Ffacs: 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Ltd.